

Ms Karen Howell  
Prif Weithredwr  
Pencadlys Bwrdd Iechyd  
Merlin's Court  
Winch Lane  
Hwlfordd  
Sir Benfro  
SA61 1SB

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163  
Ffacs: 0300 062 8387  
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

7 Hydref 2014

Annwyl Ms Howell,

**Parthed: Ymweliad a wnaed â wardiau St Caradog a St Non, Canolfan Bro Cerwyn, ac Ysbyty Llwynhelyg ar 8, 9, 10 ac 11 Medi 2014**

Fel y gwyddoch cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru arolygiad dirybudd â wardiau St Caradog a St Non yng Nghanolfan Bro Cerwyn, Hwlfordd ar 8, 9, 10 ac 11 Medi 2014.

Mae wardiau St Caradog a St Non wedi'u lleoli yng Nghanolfan Bro Cerwyn, Ysbyty Llwynhelyg, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae Bro Cerwyn yn wasanaeth seiciatrig sy'n darparu gwasanaethau iechyd i Ganolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys dwy ward breswyl a chanolfan ddydd.

Mae ward St Caradog yn gyfleuster cleifion mewnol sy'n darparu 16 o welyau, sy'n arbenigo mewn asesu, gofal byr dymor a thriniaeth i gleifion, fel arfer yn ystod cyfnod aciwt eu salwch meddwl.

Mae St Non yn ward sydd â 15 o welyau cymysg i ddynion a merched sy'n darparu gofal a thriniaeth asesiadau seiciatrig i gleifion mewnol sydd dros 65 oed.

Tynnodd yr ymweliad sylw at feysydd nodedig gan gynnwys:

- Gwnaeth y mwyafrif o'r staff ymgysylltu â'r broses arolygu. Roedd yn anffodus nad oedd yr adran seicoleg yn teimlo nad oedd amser ganddynt i ymgysylltu<sup>1</sup>
- Roedd proffiliau risg trwyadl ar gael ar gyfer cleifion
- Ar adeg ein hymweliad, nodwyd bod glendid ward St Non yn rhagorol. Roedd yr iard wedi elwa o gael sylw gan y staff - gwnaethant brynu a phlannu blodau a oedd yn creu ardal heddychlun a lliwgar i'r cleifion yn yr awyr agored. Roedd perthnasau'r cleifion yn gwerthfawrogi'r man hwn ac roeddent yn ei ganmol.
- System gynhwysfawr, strwythuredig o oruchwyliaeth wedi'i ddogfennu sydd ar waith ar ward St Non
- Roedd gan bob un o ffeiliau'r staff a adolygwyd ar ward St Non Adolygiad Datblygiad Personol cyfredol ar waith.
- Ar y cyfan, roedd staff y ddwy ward yn frwdfrydig ac roeddent am ddarparu'r gofal a'r driniaeth orau posibl i'w cleifion
- Cydymffurfiwyd â chynlluniau gofal y Mesur<sup>2</sup>
- Nodwyd bod ymgysylltiad yr uwch reolwyr â'r broses adolygu yn gadarnhaol a chafodd hyn ei groesawu
- Roedd proses Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn cael ei dilyn yn briodol.

Gwnaeth ein hymweliad hefyd dynnu sylw at nifer o broblemau. Gwnaethom ddarparu trosolwg llafar o'n pryderon i'ch tîm uwch reoli ar ddiwedd ein hymweliad ar 11 Medi 2014. Mae crynodeb o'r rhain wedi'i nodi isod:

<b>Testun Pryder</b>
1. Roedd yn amlwg bod lefelau staffio ar ward St Caradog yn broblem. Pan gyrhaeddodd AGIC ar noson 8 Medi, dim ond pedwar aelod o staff oedd ar ddyletswydd. Yn ystod yr amser hwn roedd dau glaf yn cael eu harchwilio gan ddau aelod staff gan adael nifer annigonol o staff â chyfrifoldeb dros y

<sup>1</sup>Mewn ymateb i'r llythyr hwn, gwnaeth bwrdd iechyd Hywel Dda ddarparu AGIC gydag adroddiad yn llunio mewnbwn gwasanaethau seicolegol i wardiau St Caradog a St Non (27 Hydref 2014).

<sup>2</sup> Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 - Mae'r mesur yn bennaf yn seiliedig ar ddeddfwriaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae ganddo statws tebyg yng Nghymru i Ddeddfau Iechyd Meddwl eraill y DU. Mae'n gosod gofynion statudol ychwanegol i wella'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl yng Nghymru sydd â phroblemau iechyd meddwl, p'un a ydynt yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Mae'r gofynion ychwanegol hyn yn bwysig ar gyfer asesiad, gofal a thriniaeth yr holl bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. [www.hafal.org/hafal/pdf/April2014.pdf](http://www.hafal.org/hafal/pdf/April2014.pdf)

cleifion oedd ar ôl, gan gynnwys claf newydd.  
Roedd lefelau staffio isel yn cael effaith negyddol ar:

- a. Gweithgareddau a arweinir gan nyrsys
- b. Amser therapiwtig 1:1 i gleifion
- c. Roedd diffyg goruchwyliaeth staff ar waith
- d. Morâl y staff
- e. Roedd staff yn cwyno eu bod yn flinedig
- f. Cynllunio gofal a thriniaeth

Rhaid mynd i'r afael â lefelau staffio ar fyrder.

2. Roedd recriwtio a chadw staff yn broblem barhaus. Dywedodd staff wrthym am nifer fawr o staff a wnaeth adael ward St Caradog a sut roedd asiantaethau gofal nyrsio yn anfodlon i ddarparu nyrsys. Fodd bynnag, roedd nifer o nyrsys newydd a gofrestrwyd ar fin dechrau gweithio yno. Rhaid mynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff.
3. Roedd nifer sylweddol o staff nad oedd wedi cael hyfforddiant mewn:
  - a. Ymyriad Corfforol Cyfyngol (RPI). Gwnaeth yr ystadegau a ddarparwyd ddangos nad oedd rhai staff wedi cael hyfforddiant Ymyriad Corfforol Cyfyngol ers 2012
  - b. Mae angen diweddarau bron yr holl hyfforddiant staff mewn cefnogaeth bywyd sylfaenol.
  - c. Roedd nifer sylweddol o staff a oedd heb dderbyn hyfforddiant cyfoes mewn codi a chario
  - d. Nid oedd ychwaith unrhyw gyfeiriad at hyfforddiant mewn meysydd megis y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; Deddf Galluedd Meddyliol; Trefniadau diogelu rhag colli rhyddid (DoLS) ac amddiffyn oedolion ar ward St Caradog
  - e. Roedd llawer o fodylau hyfforddiant yn cael eu cyflenwi drwy e-ddysgu a rhai drwy adrannau gwahanol, a fyddai'n anfon e-bost i gadarnhau pa staff oedd angen hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd ddiffyg system ganolog ar ward St Non a oedd yn cynnwys data hyfforddiant cynhwysfawr am yr holl staff. Dylai rheolwyr y ward gael trosolwg ar hyfforddiant eu staff a chynyddu i sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r profiad digonol.

Rhaid ymgymryd â hyfforddiant i'r holl feysydd hyn a nodwyd.

4. Nid oedd tystiolaeth yn y ffeiliau a archwiliwyd i gadarnhau bod goruchwyllo staff nyrsio ar waith ar ward St Caradog. Rhaid i'r holl staff gael goruchwyliaeth reolaidd a rhaid iddi gael ei chofnodi.
5. Nid oedd tystiolaeth o Adolygiad Datblygiad Personol (PDR) diweddar yn y ffeiliau a archwiliwyd. Rhaid i'r holl staff gael Adolygiad Datblygiad Personol bob blwyddyn.
6. Nodwyd nifer sylweddol o faterion gwaith cynnal a chadw ar y ddwy ward:
  - a. Ar ward St Caradog:
    - i. Roedd dolenni ffenestri ystafelloedd gwely wedi torri ac felly nid oedd cleifion yn gallu cau eu ffenestri'n gyfan gwbl, roedd

- rhai yn cwyno bod drafft yn y nos.
- ii. Roedd y lloriau wedi'u difrodi ac wedi rhwygo, yn enwedig lle'r oedd y sychwr dillad.
  - iii. Roedd angen ail addurno, gan gynnwys yn swyddfa'r nyrsys
  - iv. Roedd rhai drysau tân heb eu gosod yn gywir ac roedd yn ymddangos nai oedd 'sêl' ar rai ohonynt a fyddai'n sicrhau y byddai'r drws yn effeithiol o ran atal mwg i ymledu, pe bai tân
  - v. Gwelwyd rhan o ffenestr a oedd wedi torri yn ystafell fwyta'r cleifion
  - vi. Nid oedd y golau tu allan a oedd yn arwain at yr ardd yn gweithio
  - vii. Nid oedd y peiriant golchi dillad na'r peiriant sychu dillad yn gweithio. Fe'n hysbyswyd nad yw'r rhain wedi bod yn gweithio ers cryn dipyn o amser.
- b. Roedd y problemau canlynol ar ward St Non:
- i. Nid oedd y peiriant golchi llestri na'r sychwr dillad yn gweithio. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau wedi torri ers mwy na 6 mis.
  - ii. Tynnwyd y canllawiau o'r tai bach. O ganlyniad, roedd y cleifion a oedd yn gallu defnyddio'r tai bach heb gymorth, bellach yn dibynnu ar staff i'w helpu.
  - iii. Roedd canllawiau i'w gweld yn y coridorau. Wrth feddwl am y diffyg canllawiau yn y tai bach, mae hyn yn awgrymu anghysondeb yn y dull o asesu risg pwyntiau ymrwymo. Rhaid i'r Bwrdd lechyd fodloni ar y ffaith bod eu dyfarniad yn y maes hwn yn gyson ac yn gadarn.

Rhaid mynd i'r afael â'r holl faterion cynnal a chadw hyn.

7. Roedd safon y bwyd ar y ddwy ward yn hollol annerbyniol.
- a. Darparwyd bwyd gan brif Ysbyty Llwynhelyg. Nid oedd bwydlenni ar gael er mwyn i'r cleifion ddewis eu prydau eu hunain. Ni roddwyd unrhyw resymau na sail resymegol i AGIC ynglŷn â pham roedd y wardiau hyn yn cael eu trin yn wahanol i gleifion ym mhrif ysbyty Llwynhelyg, lle roedd bwydlenni a dewis yn cael eu cynnig i'r cleifion
  - b. Roedd y bwydydd a oedd yn cael eu gweini i'r cleifion yn cael eu hailadrodd. Roedd tatws stwnsh yn cael ei weini i gleifion ar ward St Caradog, dwywaith y dydd
  - c. Nid oedd unrhyw wybodaeth ynglyn â beth oedd y bwyd pan wnaeth gyrraedd y ward. O ganlyniad, ni all staff ddweud wrth y cleifion beth oedd y prydau bwyd na pha gynhwysion oedd ynddynt.
  - d. Nid oedd y bwyd ar gyfer cleifion St Non yn cyrraedd erbyn 12 bob amser, weithiau roedd yn cyrraedd rhwng 30 munud ac 1 awr yn hwyr. Roedd y ffaith fod y bwyd yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer y grŵp cleifion hwn yn cael effaith negyddol ar eu trefn.

Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd.

8. Roedd y staff ar ward Caradog yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi, nad oedd unrhyw bŵer ganddynt, ac nad oedd neb yn

gwrando arnynt, eu bod wedi ymladd yn llwyr ac nad oedd yn bosibl iddynt lwyddo i wneud yr hyn roeddent am ei wneud i gleifion. Mae'n debyg mai'r newidiadau ar y ward a'r ffaith ei fod weithiau'n heriol, ynghyd â phrinder staff oedd y prif reswm fod staff yn teimlo fel hyn. Rhaid gwella morâl ymhlith staff.

9. Ychydig neu braidd dim o gwbl o weithgareddau oedd yn cael eu cynnal ar ward St Caradog yn ystod ein hymweliad. Roedd y cleifion yn cwyno am ddiffyg gweithgareddau a'u bod wedi'u diflasu. Rhaid darparu gweithgareddau ar gyfer y cleifion.

10. Roedd penderfyniadau mympwyol/cyffredinol yn benodol am ddefnyddio ffonau symudol yn broblem ar ward St Caradog. Dywedodd cleifion wrthym os oedd y batri yn isel ar eu ffôn symudol, doedd dim ffordd o wneud aildrydaniadau. Roedd hyn am nad oedd hawl gan y cleifion i roi eu teclynnau aildrydaniad i mewn i'r socedi trydan ar y ward. Yn ystod ein hymweliad, nid oedd y ffôn talu yn gweithio ac nid oedd ffordd gan gleifion i gadw cyswllt â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Ni ddylid gwneud penderfyniadau mympwyol a rhaid bod cyfleusterau ar waith i gleifion gysylltu â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

11. Nid oedd gan ward St Caradog hysbysfwrdd i arddangos gwybodaeth i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod hwn wedi cael ei dynnu oddi yno peth amser yn ôl ac nad oedd un newydd wedi cael ei roi yn ei le. Rhaid darparu hysbysfwrdd i arddangos gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cleifion, gan gynnwys manylion eiriolaeth.

12. Adolygwyd cynlluniau gofal a thriniaeth a nodwyd y canlynol:

- a. Yn gyffredinol, roedd diffyg tystiolaeth bod cleifion yn cymryd rhan ac roedd tystiolaeth o laesu dwylo wrth nodi digwyddiadau arwyddocaol ar y System DATIX.
- b. Roedd diffyg manylion yn y nodiadau a wnaed yn dilyn digwyddiad gyda chlaf RW ar 8 Medi 2014.

Rhaid mynd i'r afael â materion dogfennaeth ac amseroldeb wrth gofnodi digwyddiadau arwyddocaol.

13. Mae angen adolygu cyfleusterau i gleifion a gafodd eu derbyn dan adran 136. Mewn gwirionedd, lolfa yn unig oedd yn y man hwn.

14. Gwnaeth adolygiad o'r clinig/ ystafell driniaeth ar ward St Caradog nodi'r arsylwadau canlynol:

- a. Roedd dryswch ymhlith staff o ran cofnodi cyffuriau a reolir.
- b. Roedd cofnodion derbyn cleifion a oedd wedi cael eu croesi allan a'u hailysgrifennu, gan eu gwneud yn aneglur.

15. Roedd y gyfradd llenwi ar ward St Caradog yn broblem. Bu mwy nag un achlysur pan gorfu i gleifion gysgu mewn ardaloedd y lolfa am nad oedd digon o ystafelloedd gwely ar gael ar y ward. Nid yw'r arfer hon yn

dderbyniol a rhaid dod o hyd i strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Gwnaethom hefyd sylwi bod nifer uchel o gleifion yn absenoldeb ac os oedd angen i unrhyw un o'r cleifion hyn ddod nôl i'r ysbyty, byddai hyn yn amlwg yn cael effaith sylweddol ar niferoedd y cleifion a'r gwelyau a fyddai ar gael. Mae angen adolygu'r trefniadau o ran derbyn cleifion er mwyn sicrhau nad oes gan yr ysbyty fwy o gleifion na gwelyau.

16. Roedd rhai o'r ffeiliau a archwiliwyd yn cynnwys ffurflenni absenoldeb adran 17 a oedd wedi dod i ben, dylai'r rhain gael eu nodi fel 'diddymedig' fel ei fod yn amlwg i'r staff pa ffurflen sydd fwyaf cyfredol er mwyn cyfeirio ato'n hawdd.

### **Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl - Gweinyddu'r Ddeddf**

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol chwech o'r cleifion a oedd yn derbyn gofal ar ddwy o'r wardiau adeg ein hymweliad. Nodwyd y problemau nodedig canlynol:

- Roedd y ffeiliau a archwiliwyd yn cynnwys tystiolaeth dda o graffu gweinyddol
- Roedd ward St Non yn defnyddio rhestr wirio weinyddol a oedd yn ymgorffori rhestr wirio Cynllun Gweithredu Iechyd Meddwl yn eu system feilio, ystyrir bod hyn yn arfer nodedig.

Rhaid i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn 28 Hydref 2014 gan nodi'r hyn rydych chi wedi'i wneud eisoes yn ogystal â'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r materion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu osod graddfa amser a manylion am bwy fydd yn gyfrifol am weithredu. Wedi i AGIC gytuno bod y cynllun yn briodol bydd yn rhaid ichi ddarparu diweddiadau misol am y cynnydd yr ydych yn ei wneud.

Wrth dderbyn y llythyr hwn, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud sylw ar gywirdeb gwirioneddol y materion a nodwyd. Wrth dderbyn eich cynllun gweithredu, bydd copi o'r llythyr rheolaeth, ynghyd â'ch cynllun gweithredu yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Efallai y byddwn yn cynnal ymweliad arall er mwyn sicrhau eich bod wedi mynd i'r afael â'r materion uchod yn ddigonol, a byddwn yn cynnal ymweliadau yn amlach os oes gennym bryderon ynglŷn â diffyg gweithredu prydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddi-oed i drafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir



**Mr John Powell**

Pennaeth Rheoleiddio

cc – Ms Bernardine Rees OBE, Cadeirydd Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3BB

Dr Phil Kloer, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Gofal sylfaenol, Iechyd Meddwl, Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3BB

Libby Ryan-Davies, Cyfarwyddwr Interim Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3BB

Teresa Owen, Cyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3BB

Dr Warren Lloyd, Cyfarwyddwr Cyswllt Meddygol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3BB

Ms Caroline Oakley, Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth; Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3BB

Ms Sian-Marie James, Dirprwy Gadeirydd, Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3BB

Mr Paul Hawkins, Prif Swyddog Gweithredu, Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3BB

Ms Janet Davies, Ymgynghorydd Arbenigol – Ansawdd a Diogelwch y Claf, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ